



Rheolau cystadlu

Mae'r gystadleuaeth ar agor i blant rhwng 4 ac 11 oed yn ysgolion cynradd Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch ymgais ydy **11 Mai 2018**.

Dylid cyflwyno pob ymgais yn defnyddio'r **ffurflen gais ar-lein**. Neu, fedrwcw ebostio at **helo@ycriwmentrus.com** neu eu hanfon at

Y Criw Mentrus
Cazbah/Prospects,
15 Cwrt Neifion,
Ffordd Y Cefnfor
Caerdydd CF24 5PJ

Trefnir y gystadleuaeth hon gan Prospects Cazbah ar ran Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae 'Ni' yn cyfeirio at y 'Cazbah Prospects. Mae 'Chi' yn cyfeirio at y cystadleuwyr.

Drwy gystadlu, rydych yn cytuno â holl delerau ac amodau'r gystadleuaeth ac yn derbyn bod penderfyniadau Prospects Cazbah ac unrhyw feirniaid a benodir gan Prospects Cazbah yn derfynol a gorfodol ymhob agwedd.

- Ni ellir derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ymgais sydd yn mynd ar goll ac ni ellir dychwelyd unrhyw ymgais.
- Un o'r amodau cystadlu ydy bod rhaid i bob un sy'n cymryd rhan sicrhau y caniatâd priodol i gael tynnu eu lluniau, eu ffilmio neu eu recordio ar gyfer y gwobrwyo a'r seremoni wobrwyo.
- Mae Llywodraeth Cymru ac unrhyw sefydliad sy'n gysylltiedig â'r gwobrau yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r cyfryw luniau, ffilmiau neu recordiadau at bwrpas hyrwyddo.

Drwy gystadlu, rydych yn cytuno na fyddwch:

- Yn cyflwyno unrhyw ddeunydd nad yw'n waith y disgyblion eu hunain.
- Yn cyflwyno celwydd neu anwiredd a allai niweidio unrhyw drydydd parti neu'n tramgwyddo yn eu herbyn.

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



- Yn cyflwyno unrhyw ddeunydd sy'n anghyfreithiol, yn sarhaus neu fel arall yn amhriodol.

Mae Prospects Cazbah yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw gystadleuydd sy'n methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r gystadleuaeth yn ôl eu digresiwn eu hun yn unig.

Bydd yr holl ddeunydd a gyflwynir neu a gynhyrchir fel rhan o'r gystadleuaeth hon yn cael ei drwyddedu i Lywodraeth Cymru ar drwydded fyd eang, ddi-freindal, heb gyfyngiad am byth, yn unol â'r telerau a'r amodau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i ddefnyddio'r testun, y delweddau a/neu'r recordiadau yn rhannol neu yn gyfan fel y gwelant yn briodol (efallai heb fod yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth hon), gan gynnwys y rhyngrwyd, heb ganiatâd y cystadleuydd na thalu am y cyfryw ddefnydd.

Dim ond pan fydd hi'n angenrheidiol ar gyfer y gystadleuaeth fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio manylion personol yn amodol ar ddarpariaethau GDPR.

Panel o feirniad fydd yn beirniadu'r cynigion. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.

Does dim arian yn lle gwobrau di-arian.

Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i newid manylion y gwobrau ar unrhyw adeg.

Cyhoeddir enwau'r enillwyr Gorffennaf 2019.

Bydd y manylion yn cael eu rhoi ar y wefan hon.

Ni ellir cychwyn trafodaeth ysgrifenedig na thrwy gyfweiliad ar unrhyw fater yn ymwneud â'r gystadleuaeth hon.

Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi enwau unigolion gyda'r deunyddiau fydd yn cael eu dangos.

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Rydyn ni'n cadw'r hawl i ddiwygio telerau ac amodau'r gystadleuaeth hon ar unrhyw adeg. Os gwnawn hynny, byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau i'r telerau ac amodau ar y dudalen hon.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau at: helo@ycriwmentrus.com

Syniadau Mawr
Cymru

Busnes | Business
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government